



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Tîm Cyngor Morol
Maes-y-Ffynnon
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2DW

E-bost: morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 0300 065 3000

13 Chwefror, 2015

Annwyl Syr / Fadam

Mae nifer o ardaloedd yn y môr o amgylch Cymru'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig newydd. Yn ôl tystiolaeth wyddonol, ystyrir fod yr ardaloedd hyn yn rhai sy'n cynnal poblogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol o Lamhidydd yr Harbwr a nifer o rywogaethau adar y môr.

Diben y llythyr hwn yw eich hysbysu y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru'n cynnal 'dyddiau galw heibio' anffurfiol lle gall sefydliadau ac unigolion â diddordeb ganfod rhagor am y cynigion a'u trafod gyda staff Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Gweinidog Cymru dros Adnoddau Naturiol sy'n penderfynu a ddylid dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac nid oes unrhyw benderfyniad wedi'i gymryd hyd yma. Os bydd y Gweinidog yn penderfynu symud ymlaen â'r cynigion, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn nes ymlaen yn y flwyddyn, cyn cymryd unrhyw benderfyniad a ddylid dynodi'r ardaloedd ai peidio.

I ddechrau, rydym yn cynnal dwy sesiwn alw heibio, un yng ngogledd Cymru ac un yn ne Cymru, mae'r manylion isod. Rydym yn deall na fydd y dyddiadau na'r lleoliadau gyfleus i bawb, felly byddwn yn ystyried cynnal sesiynau mewn mannau eraill, megis y Canolbarth, yn dibynnu ar faint o ddiddordeb sy'n cael ei ddangos. Os yn briodol, efallai y byddwn hefyd yn gallu cyfarfod â phartïon â diddordeb ar sail un i un yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae manylion y ddwy sesiwn gyntaf fel a ganlyn:

- Dydd Llun 23 Chwefror 2015, canol dydd hyd 7pm yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol Cymru, Caerfyrddin, SA31 3EP, Ffôn: 01267 676638.
<http://venuewales.co.uk/cy/halliwell-centre-carmarthen/>
- Dydd Mercher 25 Chwefror 2015, canol dydd hyd 7pm yn Tŷ Menai, Parc Menai, Bangor LL57 4HJ Ffôn 01248 675000
http://www.parcmenai.com/cy-GB/ty_menai-63.aspx

Bydd lluniaeth ar gael yn y ddwy sesiwn ac mae yna digon o le parcio a mynedfa i gadeiriau olwyn yn y ddau le.

Byddwn wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyh os ydych:


- eisiau dod i un o'r ddau ddiwrnod galw heibio cyntaf;
- yn gwybod am ddigwyddiadau eraill, addas, sy'n cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf (er enghraifft cyfarfodydd cymunedol, cyfarfodydd blynyddol ac yn y blaen) ble gallwn ni fod yno, amlinellu'r cynigion ac ateb cwestiynau;
- eisiau awgrymu cyfarfod ychwanegol mewn man arall.

Rhowch wybod i ni os hoffech chi gymryd rhan, naill ai drwy ffonio Cyfoeth Naturiol Cymru ar 0300 065 3000 (gofynnwch am gynigion Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Gwarchodaeth Arbennig morol) neu e-bostiwch ni ar morol.n2k@naturalresourceswales.gov.uk gyda'ch enw, enw sefydliad (os yn berthnasol) a'ch rhif ffôn cyswllt.

Mae croeso i bawb yn y ddau ddiwrnod galw heibio, ond byddai o gymorth pe byddech yn rhoi gwybod i ni dros y ffôn neu drwy e-bost (fel uchod) os ydych yn bwriadu dod i unrhyw un o'r ddau. Hefyd, bydd staff Cyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru ar gael i drafod mewn sesiynau un i un am hyd at hanner awr ar y ddau ddiwrnod. Os hoffech neilltuo adeg benodol, byddai'n ddoeth archebu'ch sesiwn o flaen llaw pan fyddwch yn cadarnhau'ch presenoldeb. Byddwn yn gwneud ein gorau i gadw at ddewis pawb, ond yn dibynnu ar y gofyn, efallai y bydd rhaid rhannu'r sesiynau hanner awr gyda chyfranogwyr eraill.

Edrychwn ymlaen yn fawr at glywed oddi wrthyh.

Yn gywir



Rhian Jardine
Pennaeth Cymunedau Cynaliadwy